



Inspecting policing  
in the public interest

# Ymateb Heddlu De Cymru i'r her cyllid

**Gorffennaf 2013**

# Heddlu De Cymru: Crynodeb gweithredol

Mae Heddlu De Cymru yn wynebu her ariannol lai o gymharu â heddluoedd eraill, ond mae'n plismona amgylchedd cymhleth. Mae plismona prifddinas Cymru yn cyflwyno heriau penodol.

Mae'r heddlu yn sicrhau cynnydd da tuag at gyflawni ei ofynion arbedion. Mae eisoes wedi arbed 72% o gyfanswm yr arbedion sydd eu hangen, yn bennaf trwy ailstrwythuro a lleihau maint ei weithlu. Mae Heddlu De Cymru wedi defnyddio technoleg yn dda i gefnogi swyddogion rheng flaen i weithio'n effeithiol ac mae ganddo ymagwedd a nodweddir gan arloesi ac ymgysylltu cryf gyda staff.

Hyd yn hyn, rydym yn fodlon fod yr heddlu yn sicrhau arbedion heb leihau'r gwasanaeth i'r cyhoedd ac yn gosod ei hun mewn safle cryf i reoli newidiadau mewn cyllid yn y dyfodol.

## Her ariannol

Mae Heddlu De Cymru wedi nodi ei fod angen arbed £33.6miliwn dros bedair blynedd yr adolygiad o wariant (h.y. rhwng Mawrth 2011 a Mawrth 2015).

Fel cyfran o'i gyllideb gyffredinol (12%) mae'r gofyniad arbed hwn yn llai na'r rhan fwyaf o heddluoedd eraill, er bod yr heddlu yn wynebu her gymedrol oherwydd bod y swm o arian a dderbynia<sup>1</sup> yn gymharol uchel o ystyried maint poblogaeth De Cymru, ond mae ganddo fwy o swyddogion na'r rhan fwyaf o heddluoedd eraill ac felly mae ei fil cyflogau yn gymharol uchel. Mae'r swm mae'n ei wario ar bob swyddog ac aelod o staff hefyd yn uwch na'r rhan fwyaf o heddluoedd eraill.

## Cynnydd ar sicrhau arbedion

Mae Heddlu De Cymru wedi cynllunio sut y bydd yn arbed £33.5miliwn o'r £33.6miliwn sy'n ofynnol erbyn Mawrth 2015. Mae angen dod o hyd i £0.1miliwn<sup>2</sup> o arbedion pellach. Mae'r heddlu yn rhagweld y bydd yn arbed dros £1miliwn yn fwy nag sydd angen eleni i gyflawni cyllideb gytbwys erbyn 2015.

## Newidiadau i'r gweithlu

Mae pob heddlu yn gwario'r rhan fwyaf o'u harian ar gostau staff (megis cyflogau a goramser). Maent wedi canolbwyntio ar leihau'r gwariant hwn i leihau costau.<sup>3</sup> Nid yw Heddlu De Cymru yn eithriad.

Mae Heddlu De Cymru wedi lleihau'r nifer swyddogion yr heddlu trwy ofyn i swyddogion ymdeol unwaith y byddant wedi cwblhau eu 30 mlynedd llawn o wasanaeth

---

1 O grant cyllid canolog yr heddlu, ac o ffynonellau eraill megis y dreth gyngor.

2 Efallai na fydd y symiau i'w harbed yn cyfateb i'r cyfanswm oherwydd talgrynnu.

3 Gweler *Adapting to Austerity*, HMIC, Llundain, Gorffennaf 2011, t13. Ar gael gan [www.hmic.gov.uk](http://www.hmic.gov.uk).

pensiynadwy, gan ddefnyddio ymddeoliadau meddygol ble fo'n briodol a chyfyngu ar recriwtio. O ganlyniad, erbyn diwedd cyfnod yr adolygiad o wariant, bwriedir cael 303 yn llai o swyddogion yr heddlu yn Ne Cymru. Mae hyn yn golygu y bydd nifer swyddogion yr heddlu yn Ne Cymru yn lleihau o 10% rhwng Mawrth 2010<sup>4</sup> a Mawrth 2015; mae hyn yn lleihad tebyg i'r hyn sy'n ofynnol gan y rhan fwyaf o heddluoedd eraill.

Roedd Heddlu De Cymru yn nodedig gan nad oeddynt wedi darparu niferoedd arfaethedig i HMIC ar gyfer swyddogion rheng flaen yr heddlu yn 2015. Ar adeg yr archwiliad, roedd y manylyn hwn yn dal i gael ei ddatblygu. Rhwng Mawrth 2010 a Mawrth 2013, gostyngodd y gyfran o swyddogion yr heddlu mewn rolau brwydro troseddu rheng flaen o 89% i 87%. Mae hyn yn cymharu â chynnydd cyffredinol ledled Cymru a Lloegr o 89% i 91%.<sup>5</sup> Fodd bynnag, gwelsom dystiolaeth o ymroddiad yr heddlu i blismona lleol gweladwy.

Mae'r heddlu hefyd wedi diswyddo rhai o staff yr heddlu a heb lenwi swyddi eraill wrth i weithwyr adael (e.e. trwy ymddeoliadau ac ymddiswyddiadau). O ganlyniad, erbyn diwedd cyfnod yr adolygiad o wariant, bydd 245 yn llai o staff yr heddlu yn Heddlu De Cymru. Mae hyn yn golygu y bydd nifer staff yr heddlu yn lleihau o 14% rhwng Mawrth 2010 a Mawrth 2015; mae hyn yn lleihad llai na'r rhan fwyaf o heddluoedd eraill. Mae'r heddlu yn derbyn cyllid atodol gan Lywodraeth Cymru i gynyddu'r nifer o swyddogion cymorth cymunedol (CSO) o 171. Mae hyn yn gynydd o 51% pan mae'r rhan fwyaf o heddluoedd eraill yn torri niferoedd CSO.

## Effaith ar y cyhoedd

Mae HMIC yn disgwyl sicrhau arbedion heb niweidio'r gwasanaeth a ddarperir i'r cyhoedd. Rydym yn monitro a ydynt yn cyflawni hyn trwy archwilio cyfraddau troseddu, a chanlyniadau'r arolygon boddhad dioddefwyr y mae'r holl heddluoedd yn eu cwblhau.

Yn ystod dwy flynedd gyntaf yr adolygiad o wariant, gostyngodd troseddau a gofnodwyd (ac eithrio twyll)<sup>6</sup> o 10% yn Ne Cymru, sy'n lleihad is na'r ffigwr ar gyfer Cymru a Lloegr (13%). Mae boddhad yn dal i fod yn uchel ar 86.2%<sup>7</sup> – mae hyn yn uwch na heddluoedd eraill.

Mae'r cynnydd hwn mewn perfformiad yn awgrymu fod Heddlu De Cymru wedi sicrhau arbedion heb gael effaith andwyol ar y gwasanaeth a ddarperir i'r cyhoedd.

## Heriau yn y dyfodol

Er bod cynlluniau arbedion yn dal i ddangos bwlch cyllid ar ddiwedd y cyfnod adolygiad o wariant hwn, mae'r heddlu yn rhagweld y bydd yn rhagori ar ei dargedau ar gyfer arbedion yn 2013/14. Mae gan yr heddlu allu arweinyddol da a gallu i wynebu heriau yn y dyfodol.

<sup>4</sup> Rydym yn defnyddio 2010 fel ein llinell sylfaen gan i nifer o heddluoedd ddechrau lleihau staff gan ragweld yr adolygiad o wariant.

<sup>5</sup> Mae hyn yn gyfnod amser gwahanol i'r hyn a ddefnyddir mewn adroddiadau heddlu eraill.

<sup>6</sup> Troseddau ac eithrio twyll, yn unol â'r dosbarthiadau troseddau newydd a ryddhawyd yng Ngorffennaf 2013 gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

<sup>7</sup> ± 1.0%

# Casgliadau

Ymatebodd Heddlu De Cymru yn gynnar yn y cyfnod adolygiad o wariant gyda rhaglen newid gynhwysfawr oedd yn lleihau costau ac yn ailstrwythuro'r sefydliad i wella ei allu i frwydro troseddau.

Cafwyd cynnydd da ac mae'r mwyafrif o'r arbedion gofynnol eisoes wedi eu cyflawni. Mae'r heddlu yn edrych tu hwnt i'r cyfnod hwn ac yn paratoi ar gyfer cyfyngiadau ariannol pellach. Mae cynllunio manwl wedi cychwyn ar raglen sylweddol o newid pellach wedi ei gefnogi gan welliant parhaus.

Mae'r heddlu yn ymroddedig i blismona lleol gweladwy. Mae boddhad dioddefwyr yn uchel a throseddau a gofnodir ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn parhau i ostwng. Mae hyn yn awgrymu, hyd yn hyn, fod Heddlu De Cymru yn llwyddo i sicrhau arbedion heb leihau'r gwasanaeth mae'n ei ddarparu i'r cyhoedd.

Yn ein hasesiad, mae gan yr heddlu y gallu arweinyddol a'r gallu angenrheidiol i gyflawni ei gynllun arbedion ac i gynnal plismona effeithiol. Mae yna ddealltwriaeth a rennir o natur a maint yr her cyllid sy'n seiliedig ar gofnod positif o gyflawniad ac arloesi. Hyd yn hyn, mae'r heddlu wedi sicrhau cydbwysedd da rhwng buddsoddiad ac arbedion, ac mae'n disgwyl cyllideb gytbwys ar ddiwedd yr adolygiad o wariant presennol.

Yn Hydref 2010, cyhoeddodd y Llywodraeth y byddai cyllid canolog i Wasanaeth yr Heddlu yng Nghymru a Lloegr yn lleihau o 20% yn y pedair blynedd rhwng Mawrth 2011 a Mawrth 2015.

Mae Rhaglen Gwerth yr Heddlu (Valuing the Police) HMIC wedi olrhain sut mae heddluoedd yn bwriadu gwneud arbedion i fodloni'r galw cyllidebol hwn pob blwyddyn ers haf 2011. Mae'r adroddiad hwn yn nodi beth a ganfuom yn ei drydedd flwyddyn.

Canolbwyntiodd ein hymchwiliad ar dri chwestiwn:

1. Sut mae'r heddlu yn ymateb i'r lleihad yn y gyllideb?
2. Beth yw'r effaith ar gyfer y gweithlu a'r cyhoedd?
3. Sut mae'r heddlu yn rheoli risgiau presennol ac yn y dyfodol?

I ateb y cwestiynau hyn, fe gasglom ddata a chynlluniau o heddluoedd, holi'r cyhoedd i weld a oeddynt wedi sylwi ar unrhyw newidiadau yn y gwasanaeth a dderbyniant gan yr heddlu ac o ganlyniad i'r toriadau, ac wedi cyflawni archwiliadau yn yr heddlu. Buom hefyd yn cyfweld y Prif Gwnstabl, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau ac arweinyddion prif swyddogion ar gyfer cyllid, newid, adnoddau dynol a pherfformiad ym mhob heddlu, a chynnal grwpiau ffocws gyda staff a swyddogion eraill.

Ceir casgliadau a phatrymau cenedlaethol ar draws y 43 heddlu yn ein hadroddiad thematig, *Policing in Austerity: Rising to the Challenge*, sydd ar gael o [www.hmic.gov.uk](http://www.hmic.gov.uk).

Yn yr adroddiad hwn cyflwynir y canfyddiadau ar gyfer Heddlu De Cymru.